EICH CWESTIYNAU

Ar gyfer pa fath o ymchwil y byddwn i'n gwirfoddoli?

Mae Join Dementia Research wedi ei gynllunio i ddefnyddio gwybodaeth bersonol pobl i'w paru ag astudiaethau ymchwil priodol. Mae ymchwil bresennol yn amrywio o astudiaethau clinigol o driniaethau newydd i arolygon am beth sy'n gweithio o ran gwella ansawdd bywyd pobl â dementia a'u gofalwyr.

Pwy gaiff gofrestru gyda Join Dementia Research?

Caiff unrhyw un, sy'n dioddef o ddementia neu beidio, ddatgan eu diddordeb fel gwirfoddolwr. Mae'n rhaid i wirfoddolwyr fod dros 18 oed. Gallwch gofrestru rhywun arall hefyd, cyn belled â'ch bod yn gwneud hynny er eu budd hwy.

Sut fydd cofrestru o fudd i mi?

- Bydd Join Dementia Research yn eich helpu i ddysgu mwy am ymchwil dementia yn eich ardal neu yn genedlaethol.
- Mae'n ffordd rwydd o roi gwybod i ymchwilwyr y byddech yn hoffi cymryd rhan mewn astudiaeth.
- Bydd cofrestru'n mynd â chi gam yn nes at gymryd rhan mewn astudiaeth. Os penderfynwch gymryd rhan mewn astudiaeth, cewch y boddhad o wybod eich bod yn gallu cyfrannu at ymwybyddiaeth o ddementia yn y dyfodol a beth sy'n ei achosi, yn ogystal â diagnosis cynnar, gwell triniaeth ac ansawdd gofal.

Wrth gofrestru, ydw i'n ymrwymo fy hun i ymchwil?

Na. Ar ôl i chi gofrestru'ch diddordeb, edrychir ar eich manylion yn rheolaidd er mwyn eich paru ag astudiaethau priodol. Os daw astudiaeth sy'n addas i chi i'r amlwg, bydd y tîm ymchwil perthnasol yn cysylltu â chi.

Cewch wybodaeth am yr astudiaeth gan dîm ymchwil yr astudiaeth honno, a bydd cyfle i ofyn cymaint â fynnwch o gwestiynau i'r ymchwilwyr cyn penderfynu a hoffech gymryd rhan ynddi ai peidio.

Cofrestrwch heddiw yn:

www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk

neu os oes angen help arnoch, ffoniwch:

Alzheimer Scotland	Alzheimer's Research UK	Alzheimer's Society
0808 808 3000	**0300 111 5 111**	**0300 222 1122**
Ar gael 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos **(Alban)**	Dydd Llun – ddydd Gwener 9am – 5pm **(Drwy'r DU)**	Dydd Llun - ddydd Mercher 9am – 8pm Dydd Iau a dydd Gwener 9am – 5pm Dydd Sadwrn a dydd Sul 10am – 4pm **(Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon)**

Mae galwadau i Alzheimer Scotland am ddim. Mae galwadau i Alzheimer's Research UK a Alzheimer's Society yn costio'r un faint â galwadau cenedlaethol o unrhyw fath o ffôn neu ddarparwr ac mae galwadau'n cael eu cynnwys mewn pecynnau galwadau am ddim ar linell dir a ffonau symudol.

Alzheimer Scotland Action on Dementia | Alzheimer's Research UK The Power to Defeat Dementia | Alzheimer's Society Cymru

Cyllidir Join Dementia Research gan yr Adran Iechyd ac mae'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd, Alzheimer Scotland, Alzheimer's Research UK a Alzheimer's Society.

CRN097

Join dementia research

NHS National Institute for Health Research

HELPWCH NI I DRECHU DEMENTIA

Cofnodwch eich diddordeb mewn ymchwil dementia heddiw

www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk

Alzheimer Scotland Action on Dementia | Alzheimer's Research UK The Power to Defeat Dementia | Alzheimer's Society Cymru

MAE DROS 850,000

o bobl yn byw gyda dementia yn y Deyrnas Unedig heddiw.

Cofrestrwch gyda'r gwasanaeth cenedlaethol newydd i'ch cysylltu â'r ymchwil dementia diweddaraf

Mae astudiaethau hanfodol i ddiagnosis cynnar o ddementia, rhwystro'r clefyd a thriniaethau newydd yn cynyddu - dyma pam bod angen mwy o wirfoddolwyr.

Sut gallaf fod yn rhan o hyn?

Gwasanaeth newydd yw Join Dementia Research, sy'n galluogi pobl i gofrestru eu diddordeb mewn ymchwil dementia cenedlaethol. Mae'n fodd i baru pobl sydd â dementia, eu gofalwyr neu unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymchwil dementia ag astudiaethau. Gallai cofrestru wneud gwahaniaeth gwirioneddol i chi ac i eraill.

Gellwch ddod o hyd i ni ar Twitter
@beatdementia

Dewch i'n gweld ar Facebook
/joindementiaresearch

Sut ydw i'n cofrestru fy niddordeb?

Gallwch gofrestru ar-lein ar gyfer y gwasanaeth, dros y ffôn neu drwy'r post. Bydd eich manylion yn cael eu cadw'n ddiogel, ac edrychir arnynt yn rheolaidd at ddiben eu paru ag astudiaethau priodol.

Cofrestrwch heddiw yn:

www.joindementiaresearch.nihr.ac.uk

neu os oes angen help arnoch, ffoniwch:

Alzheimer Scotland	Alzheimer's Research UK	Alzheimer's Society
0808 808 3000 (Alban)	**0300 111 5 111** (Drwy'r DU)	**0300 222 1122** (Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon)

Stori Nigel a Chantel

Mae Chantel a Nigel yn briod ers 32 mlynedd. Roedd Nigel wedi bod yn yrrwr bysiau ers 30 pan ddechreuodd gael problemau gyda rhifau a chyfrif. Dyna pryd y sylweddolodd Chantel efallai bod rhywbeth yn bod. Cafodd Nigel ddiagnosis o glefyd Alzheimer etifeddol yn 2009. Yn ystod un o'u hymweliadau â'r ysbyty, gofynnodd eu meddyg a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil i achosion genetig y cyflwr.

"Gallaf ddweud yn onest bod cymryd rhan mewn ymchwil wedi newid ein bywydau wrth i ni deimlo fod gennym lawer mwy o ddealltwriaeth o'r clefyd, ac mae'r tîm ymchwil wedi gallu'n cefnogi ar hyd y ffordd. Mae'n anhygoel beth sy'n digwydd tu ôl i'r llenni. Roedd yn helpu rhoi tawelwch meddwl i Nigel o wybod y bydd yn gallu cyfrannu at wella diagnosis a thriniaeth i'r clefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Chantel